| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 16 Rhagfyr 2010 |
| **TEITL** | GORCHMYNION RHEOLI CŴN |
| **PWRPAS** | Rhoi gwybod i Aelodau am y broses a'r materion i'w hystyried er mwyn sefydlu Gorchmynion Rheoli Cŵn dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005. |
| **ADRODDIAD GAN** | ALED DAVIES - PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Y CYNGHORYDD J R JONES |

## 1. GWYBODAETH GEFNDIROL

Gorchmynion Rheoli Cŵn

1.1 Mae'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Adrannau 55 a 56 Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 yn rhoi'r hawl i Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned i greu Gorchmynion Rheoli Cŵn mewn perthynas â'r hyn a ganlyn:

a) Methu â chael gwared â baw ci;
b) Peidio â chadw ci ar dennyn;
c) Peidio rhoi, neu gadw, ci ar dennyn pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan swyddog awdurdodedig;
d) Caniatáu i gi fynd ar dir lle na chaniateir cŵn;
e) Mynd â mwy o gŵn na'r nifer penodedig ar dir.

1.2 Mae'r Gorchmynion Rheoli Cŵn hyn wedi disodli'r system flaenorol o is-ddeddfau rheoli cŵn, a hefyd wedi disodli Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996.

1.3 Mae Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cŵn (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007 wedi'u creu dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 sy'n rhoi gweithdrefn ar gyfer creu a gorfodi Gorchmynion Rheoli Cŵn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno arweiniad ar y mater hefyd.

1.4 Dan y darpariaethau uchod, gellir creu Gorchmynion Rheoli Cŵn yng nghyswllt unrhyw dir agored ac unrhyw dir y mae gan y cyhoedd hawl neu ganiatâd i gael mynediad iddo (drwy dalu neu am ddim).

Trefniadau Trosglwyddo

1.5 Pe crëir Gorchmynion Rheoli Cŵn, caiff y rheolaethau blaenorol a all fod wedi'u creu dan is-ddeddfau neu dan Ddeddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996 eu diddymu.

1.6 Bydd yr is-ddeddfau neu orchmynion a grëwyd dan Ddeddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996 yn parhau, a gellir parhau i'w gorfodi hyd nes fod Gorchmynion Rheoli Cŵn newydd yn berthnasol i'r ardal benodol honno. Bydd y pŵer i greu is-ddeddfau hefyd yn parhau, ond mewn perthynas â throseddau na ellir eu rhagnodi mewn Gorchymyn Rheoli Cŵn yn unig. Gellir parhau i orfodi'r is-ddeddfau a gorchmynion cyfredol a wnaed dan Ddeddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996.

Is-ddeddfau a Gorchmynion Cyfredol

1.7 Gwnaed Gorchymyn gan Gyngor Gwynedd dan Ddeddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996, oedd yn ei gwneud yn drosedd i fethu â chael gwared â baw cŵn mewn nifer o ardaloedd a nodwyd drwy'r Sir. Ceir is-ddeddfau hefyd sy'n gwahardd cŵn o rai traethau yn ystod misoedd yr haf ac yn gofyn am gael gwared â baw cŵn ar adegau eraill.

1.8 Os yw'r Cyngor yn dymuno mynd ati i weithredu Gorchmynion Rheoli Cŵn, bydd rhaid adnabod yr holl ardaloedd y mae'r Gorchmynion yn berthnasol iddynt.

1.9 Yn ogystal â gweithredu'r Gorchmynion Rheoli Cŵn mewn ardaloedd ble bo is-ddeddfau a gorchmynion yn weithredol yn barod, doeth fyddai ystyried gwahardd cŵn o bob ardal chwarae plant, ac o ardaloedd hamdden a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau chwaraeon. Efallai y dymuna aelodau ystyried cyfyngu'r nifer o gŵn a ganiateir ar dir mewn ardaloedd penodol yn ogystal.

Ymgynghoriadau

1.10 Byddai rhaid i bob ardal y bwriedir ei hystyried dan y Gorchmynion Rheoli Cŵn newydd fod yn destun ymgynghoriad, fel y nodwyd yn Rheoliad 3, Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cŵn (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007. Byddai'r holl sylwadau'n derbyn ystyriaeth, ac yn dilyn hynny câi gorchmynion drafft eu cyflwyno i'r pwyllgorau perthnasol i'w hystyried a'u caniatáu.

1.11 Wrth greu Gorchymyn Rheoli Cŵn, rhaid i Awdurdod Lleol wneud yr hyn a ganlyn:

- Ymgynghori â'i awdurdodau cynradd ac eilradd i osgoi gwrthdaro posib;
- Dangos fod y Gorchymyn yn ymateb angenrheidiol a chyfatebol i'r problemau a grëir gan weithgareddau cŵn a'u perchnogion a'r rheini sy'n gyfrifol am y cŵn;
- Pwyso a mesur lles perchnogion y cŵn a'r rheini sy'n gyfrifol am y cŵn yn erbyn lles y rheini a gaiff eu heffeithio gan weithgareddau cŵn;
- Ystyried pa mor hawdd fydd gorfodi Gorchymyn Rheoli Cŵn;
- Gosod arwyddion yn y lleoliad a ddynodwyd fel ardal rheoli cŵn, yn crynhoi'r Gorchymyn.

## 2. MATERION CORFFORAETHOL

2.1 Gall mynd i’r afael â materion rheoli cŵn gyfrannu at gyflawni tri o amcanion strategol Cyngor Gwynedd.

Amcan 1 - Cymuned Gynaliadwy
Amcan 2 - Gwella’r Cyngor er mwyn gwella Gwynedd
Amcan 4 - Ffocws ar Drigolion

2.2 Mae mynd i’r afael â materion rheoli cŵn yn cyfrannu hefyd at amcanion Strategaeth Diogelwch Cymunedol y Cyngor.

2.3 Mae materion rheoli cŵn yn flaenoriaeth bwysig ymysg y cyhoedd fel y dangoswyd yn yr ymatebion i ymgynghoriad y Strategaeth Gymunedol.

## 3. MATERION I’W HYSTYRIED

3.1 **Goblygiadau Ariannol** – Bydd goblygiadau ariannol sylweddol i’r Cyngor ynghlwm â phob cam o greu a gorfodi Gorchmynion Rheoli Cŵn. Nid oes darpariaeth ariannol wedi’i rhoi er mwyn creu a gorfodi’r Gorchmynion. Anodd fyddai creu'r gorchmynion, a byddai'n hynod o broblemus gorfodi'r gorchmynion, heb fod adnoddau digonol wedi'u dyrannu.

3.2 **Goblygiadau Staffio** – Ni allai Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ymgymryd â mwy o lwyth gwaith yng nghyswllt Gorchmynion Rheoli Cŵn, heb amharu ar weithgareddau eraill y mae’r Wardeniaid Cŵn yn gyfrifol amdanynt. Byddai rhaid ystyried yr effaith ar y Tîm Gwasanaethau Stryd a’r Uned Forwrol hefyd.

3.3 **Goblygiadau Amgylcheddol** – Mae materion Rheoli Cŵn yn effeithio’n uniongyrchol ar ansawdd yr amgylchedd ac ar argraff y cyhoedd.

3.4 **Goblygiadau i’r Cynllun Corfforaethol** - Mae mynd i’r afael â materion rheoli cŵn yn cyfrannu at gyflawni tri o amcanion strategol y Cyngor.

## 4. CASGLIADAU

4.1 Mae angen i'r Cyngor ystyried pa un a yw'n angenrheidiol ac yn briodol sefydlu Gorchmynion Rheoli Cŵn yng Ngwynedd dan ddarpariaethau Deddf Cymdogaethau Glân a’r Amgylchedd 2005. Bydd rhaid iddo ystyried y goblygiadau o ran adnoddau o fabwysiadau a gweithredu polisi o'r fath.

4.2 Mae Gorchmynion Rheoli Cŵn yn broses sy’n galluogi’r Cyngor i reoli cŵn yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, mae gofyn am adnoddau digonol er mwyn gallu gweithredu gorchmynion o’r fath.

4.3 Mae newid polisi fel hyn, a’r goblygiadau o ran staff ac adnoddau, yn faterion y byddai gofyn eu craffu drwy’r Pwyllgor Craffu Amgylchedd a’r broses fidio ariannol. Byddai penderfyniad cynnar ar adnoddau yn fuddiol ac yn osgoi ymdrechu'n ofer.

4.4 Os yw hi'n annhebygol y bydd yr adnoddau angenrheidiol ar gael, dylai'r Adran Rheoleiddio weithio gydag aelodau i geisio targedu ardaloedd problemus gan ddefnyddio’r is-ddeddfau, gorchmynion ac adnoddau sy’n bodoli’n barod.

**5. PAPURAU CEFNDIR**

5.1 Gorchmynion Rheoli Cŵn – Arweiniad ar Adrannau 55 i 67 Deddf Cymdogaethau Glân a’r Amgylchedd 2005.